



## POLISI GYRFAOEDD A BYD ADDYSG

### PWYSIGRWYDD GYRFAOEDD A'R BYD GWAITH (GBG)

Mae gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob dysgwr sydd ar y gofrestr o 11 i 16 oed mewn ysgol a gynhelir. Mae hefyd yn rhan o'r gofynion ar gyfer Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19. Mae gan bob dysgwr 14 i 19 oed hawl i'w lwybr dysgu unigol personol. Un o elfennau llwybr dysgu yw cyngor a chyfarwyddyd diduedd ynghylch gyrfaoedd.

Ymdrinnir â GBG hefyd yn agweddau o'r Craidd Dysgu 14-19 sy'n nodi'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthoedd a'r profiadau y mae ar bob dysgwr 14 i 19 oed eu hangen ar gyfer dysgu ymhellach, cyflogaeth a bywyd yn gyffredinol, beth bynnag bo'r llwybr dysgu a ddewisir ganddynt. Dyma brif elfennau o'r Craidd Dysgu sy'n gysylltiedig â GBG:

- Addysg/Cyfarwyddyd Gyrfaoedd
- Profiad sy'n canolbwyntio ar waith
- Sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith
- Gwaith gwirfoddol neu gymunedol

**Diffinnir addysg gyrfaoedd** fel darparu rhaglen gynlluniedig a dilyniannol o weithgareddau dysgu sy'n helpu pobl ifanc i:

- ddysgu am y strwythurau, systemau a'r ffactorau sy'n arwain, llunio a dylanwadu ar ragolygon gyrfa a datblygu gyrfa pobl;
- archwilio sut y gall y rhain effeithio ar eu dewisiadau yn y dyfodol, pam mae angen iddynt eu hystyried wrth wneud eu dewisiadau a'u cynlluniau gyrfa eu hunain, a sut y gallant wneud hynny; a
- datblygu ac ymarfer y sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu eu cynlluniau gyrfa a datblygu eu hunain, gan wneud defnydd deallus o wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa

#### Yn syml:

Mae angen i bobl ifanc gael y sgiliau i gymryd eu lle mewn byd gwaith sy'n ychydig yn gyflym yn yr economi fyd-eang.

Mae GBG yn ymwneud â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu dysgu a byd gwaith sy'n ei galluogi i sylweddoli gwerth addysg, cymwysterau a sgiliau. Mae GBG yn rhan o'r Cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob person ifanc 11 i 16 oed ac mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14 -19 oed.



### Nodau Allweddol

Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu :-

- Datblygu'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes.
- Rheoli eu llwybrau dysgu unigol a gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol.
- Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr
- Bod yn entrepreneuriaidd
- Bod a'r cymhelliad i wynebu heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau bywyd fel oedolyn.

### Ymrwymiad – Rydym fel ysgol yn ymroddedig i

1. Ddarparu rhaglen gynlluniedig, a wahaniaethwyd yn briodol ar gyfer ein holl ddysgwyr.
2. Sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd unigol ar gael ynglŷn â dewisiadau a datblygiad.
3. Rhoi cyfle i bob disgybl greu Ffeil Gynnydd gynhwysfawr trwy'r ddefnydd o [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com).
4. I sicrhau dulliau darparu sy'n hybu cyfle cyfartal a chynhwysiad.
5. Cynnig mewnwelediad i'r Byd Gwaith trwy wythnosau Profiad Gwaith.
6. Sicrhau bod cynlluniau gwaith pynciau yn nodi eu cyfraniad i addysg GBG ein disgyblion.
7. Casglu ac ystyried barn y disgyblion ei hun am ddarpariaeth GBG yr ysgol.
8. Cytundeb blynyddol a Gyrfa Cymru sy'n nodi'r cyfraniadau bydd pob partner yn eu gwneud.
9. Cysylltiadau egniol a busnesau a diwydiant lleol yn ogystal â'r Cyngor Sir.
10. Defnyddio'r fframwaith genedlaethol a'i chanllawiau cysylltiedig fel sail ar gyfer ein rhaglenni dysgu.

### Elfennau allweddol GBG

Mae'r fframwaith GBG yn nodi pum elfen y dylid eu hintegreiddio i raglen eang a chytbwys a'u defnyddio fel cyd-destun i ddatblygu sgiliau'n gysylltiedig â GBG. Dyma'r elfennau:

- Cyflawniad personol
- Ceisio gwybodaeth
- Deall y byd gwaith
- Arweiniad
- Gwneud a gweithredu penderfyniadau

Nid oes unrhyw amser penodol wedi'i neilltuo ar gyfer GBG.

Fodd bynnag, yng Nghraidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed, mae'n ofynnol i bob dysgwr ar lefel sylfaen, canolradd ac uwch gwblhau 30 awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith a 30 awr ychwanegol o ddysgu dan arweiniad ar gyfer profiad gwaith.

Dylid **monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth** a'r dulliau o'i ddarparu yn rheolaidd fel rhan o'r broses hunanwerthuso a chynllunio datblygu. Mae adborth gan ddysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth, a dylai pob dysgwr gael cyfleoedd i gymryd rhan ym mhroses hunanwerthuso GBG.



**Diffinnir profiad gwaith yn gyffredinol** fel gweithgaredd lle mae myfyriwr yn cyflawni tasg benodol fwy neu lai fel y byddai gweithiwr yn ei wneud, ond gyda'r pwyslais ar agweddau dysgu'r profiad. Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys hynny, ond mae hefyd yn ymwneud â gweithgareddau a phrofiadau eraill sy'n datblygu sgiliau myfyrwyr yn uniongyrchol o ran eu dealltwriaeth a'u gallu yn y byd gwaith.

Dyma rai enghreifftiau eraill o brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith:

- ymweliadau â diwydiant
- dosbarthiadau meistr gyda chyflogwyr
- efelychiadau busnes
- cyfranogiad cymunedol sy'n gysylltiedig â gwaith
- gweithgareddau menter
- diwrnodau diwydiant
- gweithgareddau datrys problemau sy'n gysylltiedig â gwaith
- lleoliadau gwaith estynedig / lleoliadau gwaith wythnosol sy'n rhan o'r amserlen
- cysgodi gwaith

Mae'r ymagwedd bersonol hon tuag at ddysgu yn golygu bod pob unigolyn ifanc yn cael cyfle i ddewis cymysgedd o ddysgu sy'n ysgogi ac yn ei herio, ac sydd o ddiddordeb, ac sy'n rhoi'r wybodaeth, sgiliau a'r agweddau y mae angen arnynt er mwyn llwyddo mewn addysg, gwaith a bywyd.

- gweithgareddau busnes addysg a drefnwyd gan Gyrfa Cymru;
- treuliodd wythnos ar leoliad profiad gwaith;
- cymerodd fyfyrwyr ran mewn gweithgaredd cysylltiedig â'r cwricwlwm a gefnogwyd gan gyflogwr;
- cymerodd fyfyrwyr ran mewn gweithgareddau ymwybyddiaeth busnes a gweithgareddau cychwyn busnes; a
- bu fyfyrwyr yn gweithio gyda mentor gyflogwr a wnaeth helpu hwy wrth iddynt osod nodau unigol.

### **Modelau Darpariaeth**

Cyflwynir GBG trwy amrywiaeth o ffyrdd. Defnyddir gwersi tiwtorial ac ABCH yn ogystal â chynnal digwyddiadau neu brosiectau untro. Fe fanteisir ar arbenigwyr neu sefydliadau i drafod yn fanwl un maes o'r economi yn ogystal ag ymweliadau gan entrepreneuriaid lleol. Wrth gydweithio agos gyda Heledd Davies ein swyddog Gyrfau a Gyrfau Cymru Emma Bengier meant yn chwarae rôl flaenllaw yn nhrefniadau'r ysgol. Ar ôl awdit ysgol gyfan ddiwedd Mehefin 2017 mae holl bynciau ysgol wedi cynyddu yn ei ymwybyddiaeth o'r ystodau sydd angen cyflawni, a'i gallu i hyrwyddo GBG trwy gyfrwng ei gwersi arferol.

**Defnyddir y broblem o 'ddod o hyd i leoliad Brofiad Gwaith sy'n berthnasol i yrfa' fel modd i ennill cymhwyster Sgiliau Allweddol Datrys Problemau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4.** Hefyd yng Nghyfnod Allweddol 5 mae'r disgyblion yn ystyried ei syniadau gyrfau gan archwilio cyfleoedd Byd Gwaith, Prifysgol a Blwyddyn Gap fel modd o ennill cymhwyster Sgiliau Allweddol.



Ceir amlinelliad o'r rhaglen GBG ar draws y Cyfnodau Allweddol, sef:

### Cyfnod Allweddol 3

#### 1. Cynllun newydd ABCh Blwyddyn 9 (2017-18)

- Opsiynau Blwyddyn 9 Heledd Davies ac RO. Cyflwyniad pwynt pŵer.
- Adnabod eu gwendidau a chryfderau taflen waith Awdit Sgiliau.
- Ymchwilio Gwefan Gyrfa Cymru Opsiynau Blwyddyn 9 yn cynnwys fideo.
- Ymchwilio Gwefan Gyrfa Cymru am Swyddi gwahanol y cyflog a chymwysterau.
- **'cwis Paru swyddi'** yn defnyddio Gwefan Gyrfa Cymru.
- Gwneud proffil unigol ar lein Gyrfa Cymru neu ddefnyddio cyfrifiadur i ymchwilio fel dosbarth gwefan Gyrfa Cymru am dueddiadau swyddi yng Nghymru ble mae'r galw.

#### 2. Ymweliadau a sefydliadau megis Coleg Pibwrlwyd e.e. Arolwg o Ddiwydiannau'r Tir, Amaethyddiaeth, Peirianeg Amaethyddol, Astudiaethau Anifeiliaid, Byd Ceffylau, Garddwriaeth, Rheoli Cefn Gwlad

#### 3. Gweithdy Heledd Davies (awr) sesiwn dewis

### Cyfnod Allweddol 4

- Ymweliad a Choleg Gelli Aur i ddisgyblion sydd â diddordeb fod ym milfeddyg.
- Wythnos Profiad Gwaith i flwyddyn 10 yn ogystal â cyfle i werthuso'r wythnos.
- Rhaglen ABCh yn canolbwyntio ar baratoi Ffeil Cynnydd a sut i ddewis lleoliad am brofiad gwaith o'r bas data. e.e. Cyflwyniad gan Heledd Davies ar 'Opsiynau' beth sydd ar gael i ddisgyblion. Prentisiaeth, Colegau a'r dewisiadau. Disgyblion wedi cael arweiniad nol ar ddiwedd blwyddyn 10 yn y sesiwn 'Creer check' lle ddaeth cyflogwyr mewn a rhannu eu profiadau. Gwneud CV neu ddefnyddio gwe fan Gyrfa Cymru, Olwyn Gyrfa (Career Wheel), Defnyddio Gwe fan Gyrfa Cymru - **Gyrfa +** i wneud hunan asesiad, beth sydd yn ei diddori, neu ysgogi i ddewis gyrfa a phwysigrwydd bod yn hapus gan ei bod yn mynd i weithio tan eu bod yn 67 oed. Cwis sy'n arwain at debygrwydd o wneud paro swyddi. Y farchnad llafur (Labour Market) Defnyddio gwe fan Gyrfa Cymru i ddarganfod ble mae'r swyddi, ymchwilio'r sgiliau sydd angen gallant edrych i weld pa swyddi sydd yn eu hardal nhw. Daw Stereoteipio ac Entrepreneuriaid mewn i'r drafodaeth.
- **Ffug gyfweiliadau** gyda Heledd Davies.
- Ymweliad i Gynhadledd Gyrfau ym Mharc y Sgarlets Coleg sir Gar.
- Profiad Gwaith Parhaus ar gyfer criw o ddisgyblion A.D.Y.
- **Diwrnod y Byd Gwaith** - Amrywiaeth o Ddosbarthiadau Meistr gan gwmnïau a sefydliadau: Heddlu, Brigâd Dan, Llysoedd. Diwrnod lle fydd cyflogwyr mewn, sesiynau lle mae cylchdroi gwybodaeth beth mae cyflogwyr yn edrych am, CV, adnabod sgiliau mae 6 sesiwn wahanol. Ymwelwyr yn dod i'r ysgol am ddiwrnod o weithgareddau.
- **Cyswllt Pricipality**



### Cyfnod Allweddol 5

- Mae BAC Cymru yn ateb sawl un o'r ystodau GBG trwy astudio'r uned Her menter a chyflogadwyedd.
- Mae pob disgybl yn cael Ffug Gyfweliadau gyda Rotary/ Heledd.
- Profiad Gwaith i flwyddyn 12.
- Siaradwyr Prosiect Gwawr Johnson 'Syniadau mawr Gymru'
- Rhaglen ABCh; Blwyddyn Gap, UCAS Byd Gwaith, Prifysgol.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	

